# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Craffu Partneriaethau | Dyddiad: | 28 Hydref 2021 |
| | | Deialu Union: | 01824 712554 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD IAU, 4 TACHWEDD 2021 yn BY VIDEO CONFERENCE** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

**Rhif Agenda** **Eitem**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 (copi ynghlwm).

**5 CYNLLUN ADFER AR ÔL COVID MEWN CANOL TREFI AC ARDRETH ANNOMESTIG GENEDLAETHOL** (Tudalennau 13 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo sy'n darparu gwybodaeth ynghylch cyflwr presennol canol ein trefi, y camau adferol yr ydym wedi'u cymryd hyd yma a mentrau i'r dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau y mae busnesau'n eu hwynebu (copi ynghlwm).

**6 CYNLLUNIAU CYNLLUN TEITHIO LLESOL COVID-19** (Tudalennau 31 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd i gynnig diweddariad pellach ar ganfyddiadau'r prosiect (copi ynghlwm).

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 43 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ann Davies
Gareth Davies
Rachel Flynn
Pat Jones
Christine Marston
Melvyn Mile
Rhys Thomas
David Williams
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy’n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy’n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynhadledd ddydd Iau, 16 Medi 2021 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Ann Davies, Rachel Flynn, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

**Hefyd yn y cyfarfod –**
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol ar gyfer eitem rhif 5 ar y rhaglen a'r
Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen.

**Arsylwyr –**
Y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies a'r Cynghorydd Gwyneth Kensler

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Rheolwr Diogelwch Cymunedol (ST), Cydlynydd Craffu (RhE), Gweinyddwr Pwyllgorau/Gwesteiwr (SW) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd/Cofnodion (KE)

Prif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd), Tom Barham

<AI1>

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gareth Davies a'r Cynghorydd Pat Jones.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Rachel Flynn i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Roedd y Cynghorydd Flynn wedi'i phenodi gan y Grŵp Ceidwadwyr fel un o'u cynrychiolwyr ar y Pwyllgor yn lle'r Cynghorydd Hugh Irving. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Irving am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod ei gyfnod fel aelod.

**2 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd.

**3 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganwyd y cysylltiadau personol canlynol o ran yr eitemau a nodir:

Eitem 5, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd):  Y Cynghorydd Rhys Thomas fel Ymddiriedolwr Banc Bwyd Dyffryn Clwyd.

Eitem 6, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol:  Y Cynghorydd Emrys Wynne, oherwydd ei fod yn gwasanaethu fel Ynad Heddwch.

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai'n amrywio trefn yr eitemau er mwyn rhoi digon o amser i'r Aelodau drafod ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y sefydliad gyda Phrif Swyddog newydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd).  Byddai'n rhaid i'r Prif Swyddog adael y cyfarfod erbyn 11am oherwydd roedd ganddo gyfarfod arall i'w fynychu.

**4 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH (CGGSDd)**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, y Prif Swyddog a benodwyd yn ddiweddar ar gyfer Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd), Tom Barham, i'r Pwyllgor.

Rhoddodd Prif Swyddog CGGSDd gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu rôl CGGSDd, sut roedd wedi gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) dros y blynyddoedd, a'i weledigaeth er mwyn cryfhau'r Trydydd Sector a'r effaith roedd yn ei chael ar breswylwyr Sir Ddinbych.

Pwyntiau allweddol y cyflwyniad oedd nodau CGGSDd i gefnogi, sbarduno, amlygu a herio'r Trydydd Sector yn Sir Ddinbych:

- Cefnogi – roedd CGGSDd yn gweithio mewn partneriaeth â Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ddarparu cyngor, canllawiau, hyfforddiant a chyllid.
- Sbarduno – dod â sefydliadau'r Trydydd Sector ynghyd i lunio partneriaethau, rhannu arfer da a darparu gwasanaethau newydd.
- Amlygu – Helpu'r Trydydd Sector i fod â llais yn Sir Ddinbych gyda gwasanaethau cyhoeddus, cyllidwyr a chomisiynwyr.
- Herio – Bod yn llais annibynnol i gefnogi sefydliadau annibynnol os nad ydynt yn cael eu clywed a hyrwyddo rhagoriaeth Trydydd Sector o ran safonau gwasanaeth a bod yn broffesiynol.

Agwedd bwysig i'r Trydydd Sector oedd hyrwyddo cyfranogiad wrth wella lles mewn cymunedau. Yn draddodiadol, roedd y Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae tlodi bwyd a phroblemau iechyd meddwl. Roedd CGGSDd wedi recriwtio Tîm Lles newydd yn ddiweddar i weithio ar y cyd â'r Trydydd Sector, CSDd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gymuned.

Roedd gan CGGSDd uwch swyddog a oedd yn awyddus i weithio gyda menter gymdeithasol ac entrepreneuriaid ar draws y Sir i greu canolbwyntiau cymunedol i hyrwyddo cynhyrchwyr bwyd lleol, caffis lles ac archfarchnadoedd cymdeithasol.

Roedd y bartneriaeth rhwng CGGSDd a CSDd trwy gydol pandemig Covid-19 wedi bod yn gadarnhaol. Roedd CGGSDd wedi lleoli Gwirfoddolwyr gyda:

- CSDd
- Deialu a Theithio
- Forget Me Not
- Cyngor Tref Prestatyn ac
- Ymatebwyr Cymunedol 4x4 ymhlith eraill.

Wrth symud ymlaen, roedd adroddiad wedi'i gomisiynu i nodi angen a chadernid yn y Trydydd Sector yn Sir Ddinbych. Byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2022. Byddai Fforwm Trydydd Sector yn cael ei sefydlu er mwyn ymgysylltu â CSDd a BIPBC i wella cyfathrebu a chydweithio ar ddarparu a datblygu gwasanaethau.

Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Prif Swyddog:

- Roedd Pwyntiau Siarad, I CAN a Llyw-wyr Cymunedol i gyd yn gyfeirbwyntiau defnyddiol yn y gymuned. Roedd Covid-19 wedi effeithio ar ymgysylltiad, ond roedd yn bwysig ailsefydlu cyfathrebu yn y gymuned.
- Rhagwelwyd y byddai Neuadd Marchnad Rhuthun yn ailagor rhyw dro ym mis Hydref.
- Roedd porthol gwirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio a'i reoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Byddai cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf CGGSDd yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2021 a byddai'n cynnwys cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.
- Roedd cyllid ychwanegol i helpu i gefnogi gwaith cefnogi sy'n ymwneud â COVID-19 wedi dod i law trwy Grantiau Argyfwng Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cymru (LlC) a gan Comic Relief.
- CGGC oedd yn berchen ar adeilad Neuadd y Morfa ar Stryd yr Eglwys yn y Rhyl, nid CGGSDd. Byddai'r Prif Swyddog yn trafod y cynigion ar gyfer yr adeilad a'r posibilrwydd ar gyfer canolfan les gyda'u Prif Weithredwr, Ruth Marks.
- Roedd gwefan newydd CGGSDd yn cael ei hadeiladu, a byddai'n cael ei rhyddhau fis Hydref.
- Roedd gan CGGSDd swyddog oedd â rôl yn helpu grwpiau newydd i dyfu, cael cyfansoddiad, sefydlu trefniadau llywodraethu, a denu cyllid cynaliadwy.
- Byddai'r newyddlen yn cael ei hadolygu a'i hailwampio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a bydd Blogiau ac ati'n cael eu cyflwyno o bosibl.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i adolygu'r gystadleuaeth Pentref Taclusaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Swyddog CGGSDd a gofynnodd iddo ddychwelyd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn y flwyddyn newydd.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u>*** ***yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) derbyn cyflwyniad y Prif Swyddog am ei weledigaeth ar gyfer dyfodol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) a'i uchelgeisiau i weithio gyda'r Cyngor a grwpiau a sefydliadau eraill***

***ledled y sir, gyda'r bwriad o wella bywydau preswylwyr a chymunedau; a***

***(ii)gofyn i'r Prif Swyddog fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ymhen tua chwe mis, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwireddu ei weledigaeth, gan amlinellu unrhyw heriau a fu a sut y cawsant eu datrys.***

**Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai'n trafod yr eitem fusnes ganlynol yn ei swyddogaeth fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, adrannau 19 a 20.**

</AI4>

**5 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel, y Cynghorydd Mark Young, yr adroddiad (dosbarthwyd eisoes). Er fod rhaid newid y ffordd roedd y Bartneriaeth yn gweithio oherwydd y pandemig, dywedodd eu bod wedi llwyddo i wasanaethu cymuned Sir Ddinbych trwy gydweithio – bob dydd gyda chydweithwyr yr heddlu – i ragweld problemau, delio â throseddau a monitro tueddiadau. Roedd cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n gweithio dan ragor o alw.

Roedd tri ar ddeg o feysydd trosedd allweddol wedi'u monitro yn ystod y pandemig. Gwelwyd gostyngiad o ran niferoedd mewn deg maes, ond bu cynnydd mewn tri maes. Sef:

1. Stelcio ac Aflonyddu;
2. Cam-Drin Domestig ac
3. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Sian Taylor, at yr adroddiad ar y prif bwyntiau a oedd wedi'i gynnwys yn atodiad 1, a'r tri maes blaenoriaeth:

<u>Blaenoriaeth 1 – Lleihau Trosedd ac Anrhefn yn Sir Ddinbych trwy weithio mewn partneriaeth.</u>

Roedd y statws perfformiad wedi'i osod fel 'derbyniol' yn unig, oherwydd roedd yn cwmpasu stelcian ac aflonyddu a cham-drin domestig, a oedd wedi cynyddu dros y cyfnod clo.

Roedd y Bartneriaeth wedi parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, Iechyd a rhwydweithiau'r Trydydd Sector i rannu gwybodaeth yn ystod y pandemig. Roedd nifer o ddatganiadau i'r wasg wedi'u dosbarthu hefyd.

Roedd yr holl waith prosiect/gweithgareddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaeth un wedi parhau, er bod hyn ar-lein a thros y ffôn yn hytrach nag wyneb i wyneb, ac aseswyd bod ei gynnydd yn 'dda'.

Roedd Byrddau Rhanbarthol wedi cwrdd, ac roedd aelodaeth rhai wedi newid yn ystod y pandemig.  Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel oedd Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Strategol Gogledd Cymru Mwy Diogel, ac roedd uwch swyddogion Sir Ddinbych yn mynychu'r cyfarfodydd. Roedd cyfarfodydd yr amryw Fyrddau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd cyfarfodydd rhannu gwybodaeth yn cael eu cynnal bob chwarter gyda staff Partneriaethau Diogelwch Cymunedol am safle Sir Ddinbych o ran perfformiad a materion eraill. Yna gellid rhannu gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn gyda staff Sir Ddinbych pan fo angen.

Blaenoriaeth 2 – Lleihau achosion o aildroseddu.

Roedd perfformiad wedi'i osod fel 'da' oherwydd bu lleihad o ran troseddau gan oedolion ac ieuenctid, er bod cydnabyddiaeth nad oedd hi'n flwyddyn arferol.

Roedd y rhaglenni rheoli troseddwyr integredig wedi parhau, gan weithio mewn partneriaeth er mwyn nodi troseddwyr ieuenctid mynych sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Felly, roedd y diweddariad gweithgarwch prosiect wedi'i osod fel 'da' hefyd.

Blaenoriaeth 3 – Blaenoriaethau Lleol

Bu cynnydd bach o ran adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ffurf anghydfodau rhwng cymdogion yn ystod y pandemig, ond yn gyffredinol, roedd y perfformiad wedi'i osod fel 'da'.

Roedd y gweithgareddau prosiect sy'n gysylltiedig â blaenoriaeth 3 yn 'dda' hefyd. Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal i fonitro ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Bwrdd Camfanteisio a Bregusrwydd Rhanbarthol o ran:

- Cam-drin domestig
- Caethwasiaeth Fodern a
- Llinellau Sirol.

Gan gyfeirio at y data ystadegol (tudalen 26 a 27), ymhelaethodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol ar y tri maes lle gwelwyd cynnydd dros y flwyddyn a'r troseddau a oedd yn llunio pob un o'r categorïau hynny.

Stelcian ar-lein oedd y cynnydd mwyaf, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol. Cynghorwyd dioddefwyr i sicrhau bod eu proffiliau cyhoeddus yn breifat, er mwyn atal troseddwyr.

Roedd achosion o atgyfeirio at yr Uned Gwasanaeth Cam-Drin Domestig (DASU) wedi mwy na dyblu dros y 12 mis diwethaf. Roedd cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r anghenion mwy cymhleth a achoswyd gan ragor o ynysu a diffyg rhyngweithio cymdeithasol. Roedd y Bartneriaeth yn hyrwyddo llinell gymorth Byw Heb Ofn ac roedd mwyafrif y galwadau'n dod gan ddioddefwyr oedd yn cael cefnogaeth gan wasanaethau'r trydydd sector.

Roedd seiberdroseddau – sy’n dibynnu ar y we ac sy’n cael eu galluogi gan y we – wedi cynyddu bron i draean dros y flwyddyn. Roedd codi ymwybyddiaeth o sgamiau gan y Tîm Safonau Masnach a gweithio gyda sefydliadau fel Age Concern i ddweud bod angen bod yn ofalus a beth i’w wneud os nad oedd rhywun yn sicr a oedd negeseuon e-bost, negeseuon testun neu wefannau yn rhai dilys, yn flaenoriaeth.

Ar ôl cyflwyno’r adroddiad, dywedwyd wrth aelodau:

- Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn hytrach na phlismona. Gallai’r Pwyllgor wahodd Heddlu Gogledd Cymru i ddod i’r Pwyllgor Craffu i drafod agweddau sy’n ymwneud â’u rôl yn benodol, pe baent yn dymuno.
- Roedd y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus sy’n ymwneud ag yfed mewn mannau agored cyhoeddus yng Nghanol Tref y Rhyl wedi’i orfodi mwy na 50 gwaith ers iddo gael ei adnewyddu, ac roedd nifer o bobl wedi cael gwŷs i fynd i’r Llys.
- Roedd arolygiadau wedi’u cynnal ar fusnesau fel salonau ewinedd a busnesau golchi ceir, er mwyn sicrhau nad oedd achosion o gaethwasiaeth fodern yno, ac er mwyn archwilio arferion Iechyd a Diogelwch ac isafswm cyflog/cofnodion cyflogau ac ati. Roedd unrhyw afreoleidd-dra a nodwyd o ran cyfrifon/cofnodion cyflogau wedi’u hanfon ymlaen at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer archwiliad pellach.
- Roedd cwmpas posibl i ymestyn ar y cyfiawnder adferol.
- Byddai cais yn cael ei gyflwyno i Heddlu Gogledd Cymru am wybodaeth am ffigurau troseddau cefn gwlad a throseddau bywyd gwyllt.
- Nid oedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn monitro damweiniau traffig ffordd. Y Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd oedd yn gyfrifol am hyn. Byddai rhif cyswllt yn cael ei nodi a’i ddosbarthu.
- Gellid rhoi gwybod i’r heddlu ar-lein (trwy 101) am negeseuon e-bost, gwefannau ac ati amheus. Dylid rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru bob amser am dwyll ar-lein, a dylid rhoi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau am dwyll budd-daliadau.
- Byddai data gwaelodlin 2019 yn cael ei ddefnyddio fel gwybodaeth gymharu ar gyfer adroddiad 2021/22, oherwydd barnwyd na fyddai data 2020/21 yn gymharydd addas oherwydd y pandemig.
- Roedd monitro Teledu Cylch Caeëdig yn gyfrifoldeb i’r Bwrdd Partneriaeth TCC.
- Byddai CSDd yn hyrwyddo’r cyfleuster e-bost Troseddau Cefn Gwlad a Rhybuddion Cymunedol newydd y mae Heddlu Gogledd Cymru yn ei greu ar hyn o bryd.
- Efallai bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Swyddogion yr Heddlu yn rhywbeth y bydd aelodau unigol am ei godi gyda’r Heddlu. Nid oedd yn fater o fewn cylch gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cyn dod â’r drafodaeth i ben, atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru i fod i fynychu sesiwn Briffio’r Cyngor ar 8 Tachwedd i roi cyflwyniad am waith Llinellau Sirol ac ateb cwestiynau’r aelodau.

Felly:

***Penderfynwyd:* - derbyn a chymeradwyo'r wybodaeth am berfformiad a'r wybodaeth ystadegol a ddarparwyd yn Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2020-21, yn amodol ar y sylwadau uchod a'r atebion a roddwyd gan ymateb i gwestiynau'r aelodau.**

</AI5>

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021. Felly:

***Penderfynwyd:* - cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir o'r trafodion.**

Ni chodwyd unrhyw faterion o ran cywirdeb y cofnodion nac o ran unrhyw fater a adroddwyd ynddynt.

</AI6>

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Roedd swyddogion yn parhau i ddisgwyl am gadarnhad gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn â phryd fyddai ei gynrychiolwyr mewn sefyllfa i ddod i gyfarfod i drafod ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn Sir Ddinbych, gan gynnwys Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych a phrosiectau cyfalaf eraill yn y sir.

Roedd 4 eitem ar raglen y cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd 2021, gan gynnwys adroddiad perfformiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer chwarter 2. Byddai adroddiad chwarter 1 yn cael ei ddosbarthu cyn hir er gwybodaeth, ac i baratoi ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

Yn gynharach yn y cyfarfod, roedd y Pwyllgor wedi awgrymu gwahodd Prif Swyddog CGGSDd yn ôl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Cytunwyd y byddai chwe mis yn amserlen addas.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi dyrannu'r eitem am Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i'r Pwyllgor ei hystyried ar 16 Rhagfyr.

Atgoffwyd yr Aelodau y dylid defnyddio'r Ffurflen Cynnig Testun Craffu pe bai ganddynt bwnc yr hoffent iddo fod yn destun craffu.

Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u>* - yn amodol ar y sylwadau a chynnwys yr uchod –**

***(i) cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor; a***
***(ii) chynnal sesiwn friffio rhag-gyfarfod dros y we ddydd Mercher, 3 Tachwedd 2021, am 10am.***

</AI7>

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Roedd y Cynghorydd Rhys Thomas wedi mynychu'r sesiwn Her Craffu Addysg a Gwasanaethau Plant ar 6 Gorffennaf 2021 a soniodd am y cadernid roedd y Gwasanaeth wedi'i ddangos dros y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Christine Marston wrth aelodau y byddai hi'n mynychu cyfarfod Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr wythnos ganlynol. Roedd hi i fod i fynychu cyfarfod Bwrdd Prosiect Canolfan Asesu Plant Is-Ranbarthol Conwy a Sir Ddinbych yr wythnos ganlynol hefyd, lle disgwyliwyd y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r prosiect yn dilyn ymarfer ail-dendro diweddar ar ôl i'r cwmni gwreiddiol a benodwyd i adeiladu'r cyfleuster fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Cytunodd y Cynghorydd Marston y byddai'n adrodd yn ôl wrth aelodau am ganlyniad y cyfarfod hwnnw.

Diolchodd y Pwyllgor i'r cynrychiolwyr am adrodd yn ôl am weithgareddau a phenderfyniadau a wnaed mewn amryw fyrddau a Grwpiau yr oeddent yn cynrychioli'r Pwyllgor arnynt. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u>* - derbyn a nodi'r diweddariadau a gafwyd gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau, yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, pan fydd ar gael.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **4 Tachwedd 2021** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol a'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Emlyn Jones a Steve Gadd** |
| **Teitl** | **Adferiad Ôl Covid yng Nghanol Trefi a Threthi Annomestig Cenedlaethol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn manylu'r nifer o eiddo busnes gwag yng Nghanol Trefi a mentrau Trethi Annomestig Cenedlaethol

1.2. Mae'r adroddiad yn amlygu'r heriau mae Busnesau Canol Trefi yn wynebu ar draws y sir a dulliau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r rhain.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth i'r pwyllgor craffu ynglŷn â chyflwr presennol canol ein trefi, y camau adferol a gymerwyd hyd yma a mentrau yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan fusnesau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, a rhoi arsylwadau ar y materion a adroddir ynddo.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Er bod cyfanswm nifer yr Eiddo Gwag o fewn ardal y Sir wedi cynyddu o 267 eiddo (Ebrill 2020) i 294 eiddo (Medi 2021), cynnydd o 27 eiddo gwag, mae cyfanswm eiddo Ardrethi Busnes hefyd wedi cynyddu o 4361 eiddo (Ebrill 2020)

i 4455 eiddo (Medi 2021). Mae'r eiddo gwag yn cynrychioli 6.7% o'r 4,455 o eiddo Ardrethi Busnes cyffredinol.

4.2. Mae'n bosibl y bydd aelodau yn ymwybodol bod nifer o esemptiadau gwahanol o ardrethi eiddo gwag, fel o fewn y cyfnod gwag cychwynnol o 3 neu 6 mis, Ansolfedd o dan y trothwy Gwerth Ardrethol taladwy, adeiladau rhestredig, tir, mastiau telegyfathrebu a waharddwyd gan y gyfraith. Mae atodiad 1 yn dangos crynodeb o'r eiddo gwag ac esemptiadau cysylltiol.

4.3. Mae prif gyfran o'r eiddo gwag o fewn ac o amgylch y prif drefi, gyda llawer llai yn y plwyfi mwy gwledig. Mae nifer a math o eiddo wedi'i ddangos yn Atodiad 2.

4.4. Mae yna ddwy fenter allweddol Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cefnogaeth i rai categorïau o Fusnes, drwy gynlluniau ardrethi, fydd yn lleihau neu hyd yn oed yn dileu'r atebolrwydd Ardrethi Busnes, mae'r prif gynlluniau fel a ganlyn:

- Y Cynllun Ardrethi Busnes Bach, sy'n cynnig hyd at 100% o ardrethi, i Fusnesau sydd â Gwerth Ardrethol o dan £6,000 ac ar ostyngiad wedi'i deilwra o £12,000 i £6,000 Gwerth Ardrethol.
- Y Cynllun Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden, sy'n darparu 100% o ostyngiad mewn Cyfraddau Busnes ar gyfer Busnesau sy'n cymhwyso yn 2020/21 a 2021/22

4.5. Mae yna ddewis pellach i Awdurdodau Lleol roi gostyngiad yn y cyfraddau sy'n daladwy, gan ddefnyddio'r grymoedd a roddwyd o dan y Ddeddf Lleoliaeth 2011. Byddai hyn drwy ddyfarnu rhyddhad dewisol. Fodd bynnag, byddai cost llawn unrhyw ddyfarniad a roddwyd o dan y cynllun hwn yn daladwy gan y Cyngor.

4.6. Mater arall gyda dyfarniad o dan y Ddeddf Lleoliaeth yw y gall Busnesau eraill hawlio bod y Cyngor yn creu amgylchedd gwrthgystadleuol, gan ei fod yn sybsideiddio rhai trethdalwyr, a fyddai'n anfanteisiol i eraill.

4.7. Er bod yr ardrethi ar gael, rydym wedi gweld bod rhai siopau yn parhau i gau ar lefel leol a chenedlaethol, yna mae'r eiddo yn wag, mae yna 4 prif reswm dros hyn:

- Er bod y tâl Ardrethi Busnes wedi gostwng, nid yw rhenti eiddo wedi gweld gostyngiad cyfwerth ac mewn nifer o achosion mae'r landlordiaid wedi cynnig gostwng rhent.
- Mae rhai siopau, yn arbennig y cwmnïau mawr wedi symud siopau unigol i eiddo mwy e.e. Carphone Warehouse yn cau ym Mharc Manwerthu Prestatyn, ac yna'n cael eu cynnwys yn yr eiddo mwy ym Mharc Manwerthu Clwyd yn y Rhyl.
- Mae unedau siopau eraill wedi cau hefyd ac yn bresennol mewn siop arall, fel Argos yn Sainsbury's neu Costa Coffee yn rhan o garej.
- Mae'r newid i siopa ar-lein wedi dechrau newid patrymau siopa dinasyddion, cynyddodd hyn yn sgil Covid19. Mae llawer o fusnesau, yn arbennig banciau wedi cau llawer o ganghennau wrth i bobl fynd ar-lein. Yn ogystal, mae cwsmeriaid nawr yn defnyddio siopau manwerthu naill ai fel man casglu neu ollwng llawer mwy, ar ôl archebu'r nwyddau ar y rhyngrwyd.

4.8. Mae data nifer yr ymwelwyr ar gyfer ein trefi i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r data yn dangos effaith negyddol amlwg mae Covid-19 wedi'i gael ar ganol trefi wrth fabwysiadu canllawiau'r llywodraeth ar gyfyngiadau masnachu a theithio. Wrth i gyfyngiadau godi, mae nifer yr ymwelwyr yn dangos eu bod wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig yn 2019.

4.9. Mae Datblygu Busnes ac Economaidd wedi comisiynu arolwg busnes er mwyn cael dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan fusnesau yn sgil Covid-19. Roedd y lansiad wedi'i alinio gyda diwedd ffyrlo gyda'r bwriad y byddai hyn yn rhoi mwy o gipolwg. Bydd adroddiad ar y canfyddiadau ar gael ar ddechrau 2022, bydd o gymorth i hwyluso pecynnau gwaith y dyfodol. Yn ogystal, mae 'Bwletin Busnes' yn cael ei gyhoeddi i fusnesau yn y sir i gynghori ar gefnogaeth a gynigir yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r bwletin yn cyrraedd 3,700 o fusnesau ar hyn o bryd.

4.10. Mae EBD yn darparu'r prosiectau isod gyda chyllid wedi'i ddarparu gan *Gronfa Trawsnewid Busnesau Canol Trefi* Llywodraeth Cymru. Gweler atodiad 4 am fanylion

- Siop Dros Dro
- Addurno Ffenestri

4.11. Mae'r rhaglen Thematig Trawsnewid Trefi yn rhoi pecyn o gefnogaeth eang a hyblyg i Awdurdodau Lleol, a anelwyd at adfywio canol trefi ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn dilyn dull 'Canol Trefi yn gyntaf' ar gyfer adfywio ac mae'n cael ei rhoi a'i blaenoriaethu ar lefel ranbarthol. Yn achos Gogledd Cymru, mae blaenoriaethu yn cael ei oruchwylio gan Grŵp o Swyddogion Adfywio Rhanbarthol, sy'n cynnwys y chwech awdurdod lleol ac yn cael ei lywio gan Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru. Mae'r rhanbarth yn cynnal diweddariad ar RRP Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae prosiectau a ddarperir drwy'r pecyn hwn ar hyn o bryd yn cynnwys Stryd y Castell Llangollen 2020, Hummingbird Dinbych, Marchnad y Frenhines Cam 1 a Phorth Canol Tref y Rhyl Cam 1

4.12. Mae EBD yn cefnogi'r cais ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad. Diben y gronfa yw buddsoddi mewn isadeiledd sy'n cynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, gwella cludiant lleol a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth. Gweler atodiad 5 am fanylion

4.13. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis y Rhyl fel un o bedair tref peilot ar gyfer Cronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref. Mae'r gronfa yn cynnig hyd a £10k fesul busnes mewn refeniw i sefydlu neu adleoli yn y dref. Hyd yma, mae 22 o fusnesau wedi mynegi diddordeb, mae'r ceisiadau yn cael eu prosesu gan Busnes Cymru. Mae gweithgaredd EBD yn hybu'r gronfa

4.14. Mae EBD yn gweithio ar y prosiectau digidol a restrwyd isod i gefnogi adferiad busnes. Gweler atodiad 6 i gael manylion
- Maybetech Trefi Bach
- Cynllun Grant Digidol Cyngor Sir Ddinbych

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd ein gwaith yng Nghanol Trefi yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol 2017-2022 gan gynnwys:

- Datblygu tai canol tref newydd a dargedwyd at bobl iau;
- Gwneud ailddefnydd masnachol a phreswyl o le gwag;
- Cynnig cefnogaeth i greu amgylchedd deniadol yng nghanol y dref sy'n annog llewyrch economaidd;

- Gwella cysylltiadau rhwng preswylwyr a chanol y dref, siopau a gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth;
- Datblygu canol tref fel lle y mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo;
- Galluogi pobl leol i gynllunio a siapio dyfodol canol eu tref

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Yn ogystal â'r cyllid cyhoeddus yr ydym yn gallu cael mynediad iddo i gyflawni'r prosiectau allweddol, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus a'r trydydd sector i fwyhau eu cyfleoedd buddsoddiad yn y dref.

6.2. Bydd cymeradwyaeth ffurfiol penderfyniadau gwariant yn parhau o fewn dirprwyaeth a phrosesau, gan gynnwys y gofyniad i holl gynigion gwariant cyfalaf gael eu hystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Ni chwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Les gan na ofynnir i'r pwyllgor wneud penderfyniad

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid yw'n berthnasol gan fod yr adroddiad hwn wedi'i gomisiynu gan y Pwyllgor Craffu

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae cefndir a fframwaith Trethi Annomestig Cenedlaethol wedi eu cynnwys yn glir yn Adran 4 o'r adroddiad hwn. Yng Nghymru, mae Awdurdodau Lleol yn casglu Trethi Annomestig Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru ac mae unrhyw gynlluniau a gytunwyd ar lefel leol yn cael eu talu drwy Gronfa'r Cyngor ac felly byddai angen eu hariannu naill ail drwy gynyddu Treth y Cyngor neu ostwng cyllidebau gwasanaeth.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid yw’n berthnasol gan fod yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ac nid yw’n gofyn am benderfyniad.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adrannau 7.2.3 a 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor

**APPENDIX 1**

**Empty Properties and Associated Exemptions**

| Empty & Exempt totals | Apr 2020 | April 2021 | Sept 2021 |
|---|---|---|---|
| Empty properties | 267 | 334 | 294 |
| Exempt within 3 months | 10 | 20 | 14 |
| Exempt Deminimis Rateable Value | 100 | 124 | 113 |
| Exempt Account | 1 | 2 | 1 |
| Exempt Property | 46 | 56 | 53 |
| Chargeable properties | 100 | 142 | 113 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 2**

**Empty Property Location and Class Type**

| Parish / Town | Retail | Offices | Industrial | Parking | Other | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bodelwyddan | 0 | 6 | 2 | 2 | 0 | 10 |
| Corwen | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 5 |
| Denbigh | 16 | 12 | 6 | 0 | 2 | 36 |
| Llangollen | 7 | 11 | 4 | 0 | 2 | 24 |
| Prestatyn | 6 | 14 | 4 | 0 | 6 | 30 |
| Rhyl | 48 | 57 | 17 | 7 | 5 | 134 |
| Ruthin | 5 | 13 | 5 | 0 | 3 | 26 |
| St Asaph | 2 | 4 | 0 | 0 | 3 | 9 |
| **Totals** | 88 | 117 | 39 | 9 | 21 | 274 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 3**

## 2020 Footfall Background

| Period | Total |
|---|---|
| Q1 | 749981 |
| Q2 | 327072 |
| Q3 | 800026 |
| Q4 | 543992 |
| TOTAL | 2421071 |

Denbighshire saw a sharp decrease between Q1 and Q2 in 2020 which can be attributed to the effect that Covid regulations had on town centres.

Each town centre then bounced back between Q2 and Q3 when restrictions were relaxed. Q4, which included the Firebreak lockdown in October and the restrictions leading up to Christmas, then saw a decrease again from Q3.

| | |
|---|---|
| Q1 | -11.2% |
| Q2 | -62.2% |
| Q3 | -20.7% |
| Q4 | -40.2% |

This highlights that Denbighshire town centres were harshly impacted by the restrictions. While Q1 footfall fell by 11.2%, it was the lowest fall out of the quarters and with no restrictions in place can be used as a benchmark of the fall for other months.

However, there are signs for optimism. Despite, the restrictions that were in place during Q3, there was only a 20.7% decrease in visitors compared to the previous year. It should also be taken into account that while less restrictions were in place during this period, there was still a large number of consumers who were more careful with their interaction. This further indicates that the Denbighshire town centres will continue their revival once the pandemic is over.

## Footfall per Denbighshire Town Centre in 2020

| Footfall in 2020 | Corwen | Denbigh | Llangollen | Prestatyn | Rhuddlan | Rhyl | Ruthin | St. Asaph | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Q1 | 25027 | 158874 | 107515 | 129841 | 17066 | 234963 | 64911 | 11784 | 749981 |
| Q2 | 11506 | 89902 | 32403 | 58111 | 13004 | 96935 | 17093 | 8118 | 327072 |
| Q3 | 27289 | 128612 | 210677 | 148889 | 17331 | 203994 | 53855 | 9379 | 800026 |
| Q4 | 16464 | 127386 | 58894 | 101430 | 17781 | 164816 | 47654 | 9567 | 543992 |
| TOTAL | 80286 | 504774 | 409489 | 438271 | 65182 | 700708 | 183513 | 38848 | 2421071 |

As shown, all town centres in Denbighshire followed a similar trend of a reduction between Q1 and Q2 2020, a recovery between Q2 and Q3, and another reduction between Q3 and Q4.

In comparison to previous years, Denbigh had the smallest change year on year change which was only 3.8% decrease. In contrast, Ruthin saw a decrease of 45.4% year on year, and Corwen a decrease of 43.5%. Reasons for these town centres being particularly impacted include people working from home and being a hospitality based town centre.

**Footfall During 2021 so far**

| Footfall Number 2021 | Corwen | Denbigh | Llangollen | Prestatyn | Rhuddlan | Rhyl | Ruthin | St Asaph | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Q1 | 11299 | 103892 | 39268 | 75751 | 15878 | 119864 | 30394 | 8812 | 405158 |
| Q2 | 23253 | 130648 | 166172 | 152615 | 19914 | 195563 | 50794 | 10454 | 749413 |

| Footfall (decrease)/increase in 2021 to 2020 | Corwen | Denbigh | Llangollen | Prestatyn | Rhuddlan | Rhyl | Ruthin | St Asaph | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Q1 | (55%) | (35%) | (63%) | (42%) | (7%) | (49%) | (53%) | (25%) | (46%) |
| Q2 | 102% | 45% | 413% | 163% | 53% | 103% | 197% | 28% | 229% |

As 2021 began with more restrictions on retail businesses, the above data shows that in Q1 of 2021, there was a continuation of the trend of less footfall during periods with restrictions on retail and hospitality. Despite this, it has again been shown that once restrictions are lifted, consumers do once again go back to Denbighshire town centres.

The vast increase shown between Q2 in 2020 and Q2 in 2021, despite Q2 in 2021 having minor restrictions on retail and major restrictions on hospitality during this period, demonstrates that there is a clear indication that town centres in Denbighshire will continue to be used at the same level as before the start of the pandemic in the years to come.

There are some town centres within Denbighshire which are performing better now than they were in 2019. Despite the restrictions in place, Rhuddlan had a higher footfall count in Q2 of 2021 than they did in 2019. The highest footfall achieved by Rhuddlan in Q2 during the last 5 years was in 2016, which 2021 was only 10% lower than. It is important to understand which town centres are currently having success and how this is being done so that these results can be replicated in other town centres.

Despite this, in other town centres there has been a decrease over the last 5 years. During Q2 of 2021 there was only 61% of the footfall number of Q2 in 2016 in Rhyl. Being able to understand the difficulties faced by the businesses in the area, along with understanding what consumers in the area want in their town centre will be vital in being able to recover the footfall figures in town centres such as Rhyl.

**Pop Up Shop**

The project concept is a ‘Pop up shop’ which aims to bring a vacant business premises back into use, the location identified is Rhyl. The project will provide test retail space for start-ups, promising and expanding businesses who see Rhyl as a potential location for their growth.

**SMART Window Dressing**

This project aims to showcase local produce in a vacant premise in a Denbighshire town by making use of digital technology for browsers to scan a code displayed in the window to direct them to the producers’ website/platform learn more and place an order.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 5**

## Levelling Up Fund

Denbighshire County Council is able to develop up to three bids for – Clwyd South, Clwyd West and Vale of Clwyd. A bid has been submitted for Clwyd South in partnership with Wrexham CBC, whilst bids are currently being developed for Clwyd West (in partnership with Conwy CBC.) and Vale of Clwyd. Each bid can apply for a maximum of £20m, whilst a standalone transport bid can access up to £50m. The Fund is a one off i.e. one application per constituency area, and any successful bid must be delivered by March 2024 – however, it offers a once in a generation opportunity to economically 'level-up' our Town Centres and wider communities in the wake of the recent pandemic.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX 6**

## Digital Projects

### Smart Towns Maybetech

This project in conjunction with Menter Môn, Rhyl BID and the technology provider Maybetech is to provide a digital platform for town centre business in Rhyl. Rhyl has been selected as a pilot location for the adoption of new technology to enhance the town’s competitiveness and sustainability. The platform provides businesses with insightful data to help inform business decisions to recover and grow

### Denbighshire County Council Digital Grant Scheme

The scheme provides financial assistance to businesses to adopt digital technology to improve productivity, stability and growth. The scheme is open to businesses county wide who undertake a review of their business with Superfast Business Wales as the subject matter experts. The findings of the review help inform the grant application to which a decision is made on which packages we agree to fund

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Tachwedd 2021** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd/ Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd** |
| **Teitl** | **Cynlluniau Cynllun Teithio Llesol COVID-19** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad am y cynlluniau teithio llesol dros dro a weithredwyd mewn nifer o ganol trefi Sir Ddinbych yn hwyr yn 2020, sydd bellach wedi cael eu tynnu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am ganfyddiadau'r prosiect i ddilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2020 sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, rhoi arsylwadau a dod i gasgliadau ar y cynlluniau Teithio Llesol Covid.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir a diben y grant

4.1.1 Ym Mai 2020, gwahoddodd Lywodraeth Cymru yr awdurdodau lleol i wneud cais am brosiectau a fyddai'n annog teithio llesol a chefnogi cadw pellter cymdeithasol yng nghanol trefi.

4.1.2 Yn dilyn proses ddethol ddechreuol a arweiniwyd gan swyddogion a hysbysiad e-bost i Grwpiau Ardal Aelodau, datblygwyd cynlluniau ar gyfer canol trefi Dinbych,

Llangollen, y Rhyl a Rhuthun. Ac eithrio Dinbych, a dynnwyd yn ôl, derbyniodd y rhain gyllid LlC ym mis Mehefin 2020. Mae adroddiad Rhagfyr 2020 yn Atodiad A yn darparu mwy o fanylion o ran y grant a'r broses a ddilynwyd.

4.1.3 Cynhaliwyd proses ymgynghoriad cyhoeddus byr ar gyfer y pedwar cynllun ym mis Gorffennaf 2020 a cyflwynwyd y canlyniadau i'r GauAA perthnasol. Roedd y cyfraddau ymateb i'r cynlluniau yn Ninbych a Rhuthun yn dda iawn gydag oddeutu 500 o bobl yn ymateb i'r ymgynghoriad Dinbych a thros 600 yn ymateb i'r ymgynghoriad Rhuthun. Roedd 80% o ymatebion Rhuthun yn gefnogol o'r cynigion, gyda chyfradd tebyg yn gwrthwynebu'r cynllun yn Ninbych. Roedd y cyfraddau ymateb ar gyfer y cynlluniau Llangollen a'r Rhyl yn llawer llai. Ymatebodd oddeutu 90 o bobl i ymgynghoriad Llangollen gydag ychydig dros 60% yn gefnogol o'r cynigion. Dim ond 30 o ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad y Rhyl, eto gyda 60% o'r ymatebion yn gefnogol.

4.1.4 Arweiniodd y canfyddiadau uchod o'r ymgynghoriad at dynnu cynllun ar gyfer Dinbych yn ôl, ond aeth y tri cynllun arall yn eu blaenau. Gwnaeth yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd y penderfyniad ffurfiol i symud ymlaen â phob cynllun ai peidio ar ôl ystyried barn pob GAA perthnasol.

4.1.5 Yn dilyn oedi dechreuol yn sgil argaeledd contractwr a prinder deunyddiau. Gweithredwyd y cynlluniau yn Llangollen, y Rhyl a Rhuthun erbyn Tachwedd 2020.

## 4.2 Cynllun Rhuthun

4.2.1 Wynebodd y cynllun yn Rhuthun broblemau dechreuol ac fe aethpwyd i'r afael â'r rhain drwy wneud mân addasiadau i'r cynllun. Fe wnaeth nifer o fusnesau a gafodd eu heffeithio yn uniongyrchol gan y mesurau, gwyno am golli gofodau parcio a llwytho tu allan i'w heiddo. Er fod rhai mesurau lliniaru ar gyfer y colledion hyn wedi cael eu cynnwys o fewn y cynllun cyffredinol, ni ystyriwyd hyn yn ddigon gan rai perchnogion busnes. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda GAA Rhuthun a arweiniodd at yr Aelod Arweiniol i wneud y penderfyniad i dynnu'r cynllun yn ôl, a digwyddodd hyn ym mis Chwefror 2021.

### 4.3 Cynllun Llangollen

4.3.1 I ddechau, ychydig iawn o adborth a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cynllun Llangollen yn dilyn ei gyflwyniad yn gynnar ym mis Tachwedd 2020. Fodd bynnag, o fis Mawrth 2021, dechreuodd nifer o ddigwyddiadau o gerddwyr yn baglu dros sylfaeni'r pyst dros dro a gyflwynwyd. Wrth i'r digwyddiadau hyn barhau, cafodd y pyst eu hamnewid am focsys blodau cul a roddodd stop ar y digwyddiadau o faglu. Hefyd arweiniodd y cynllun dros dro at gynnydd mewn cerbydau mawr yn gyrru ar y palmant er mwyn gallu mynd heibio rhwystrau a achoswyd gan y lôn o draffig gwrthwynebol.

4.3.2 Er gwaethaf y pryderon uchod, roedd CAA Dyffryn Dyfrdwy yn awyddus i gadw'r cynllun dros dro gan fod y palmant ychwanegol a grëwyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y nifer fawr o gerddwyr a oedd yn Llangollen. Roedd y farn hwn hefyd ar sail yr adborth o ymgynghoriad ar-lein dilynol. Er fod safbwyntiau ar y cynllun dros dro yn gymysg, dynododd o leiaf 60% or ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai'r cynllun barhau oherwydd ei fod yn gweithio'n dda, neu oherwydd roeddent yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i lunio casgliadau i'r gwrthwyneb. Roedd sylwadau ar y safle gan y swyddogion yn dweud fod digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r palmentydd ehangach, hyd yn oed tu allan i'r amseroedd prysur traddodiadol megis penwythnosau a gwyliau ysgol.

4.3.3 Yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid Llywodraeth Cymru yng nghanol mis Awst 2021, ac ar ôl symud i Lefel Rhybudd 0, cymerodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd y penderfyniad i dynnu'r cynllun dros dro yn dilyn trafodaeth gydag aelodau lleol.

### 4.4 Cynllun y Rhyl

4.4.1 Ar ôl ei weithredu, ychydig iawn o adborth a gafwyd gan drigolion am y cynllun dros dro yn y Rhyl. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan fusnesau lleol a ddywedodd bod colli parcio ar y stryd wedi cael effaith niweidiol ar eu busnesau. Cododd rhai trigolion ac aelodau lleol bryderon bod y cynllun yn cynyddu ciwiau traffig ar gyffordd yr A548 Ffordd Wellington/Stryd Bodfor. Gwnaeth yr Aelod Arweiniol benderfyniad ar y cynllun yn dilyn ymgynghoriad gyda GAA'r Rhyl. Tynnwyd y cynllun ar ddiwedd mis Ebrill 2021.

**4.5 Casgliadau**

4.5.1 Fel y trafodwyd yn yr adroddiad pwyllgor craffu blaenorol ym mis Rhagfyr 2020 (gweler Atodiad A), roedd y terfynau amser byr ar gyfer cyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru yn golygu ychydig iawn o amser i ddatblygu prosiectau ac i ymgysylltu â phreswylwyr, busnesau ac ymwelwyr yn ddigonol. Roedd hyn oherwydd yr angen i geisio gweithredu gwaith mor gyflym â phosibl ac i helpu busnesau, siopwyr ac ymwelwyr i deimlo'r ddiogel wrth ailagor canol trefi.

4.5.2 Arweiniodd yr ymateb negyddol i gynllun Dinbych at gytuno i ymgynghoriad byw ar gyfer y pedwar cynllun dros dro arfaethedig.

4.5.3 Ac eithrio cynllun Dinbych, cafodd y tri cynllun arall eu cefnogi gan ymatebwyr yr ymgynghoriad ar y cyfan. Erbyn i'r prosiectau gael eu cyflwyno yn niwedd Hydref/dechrau Tachwedd, roedd nifer yr ymwelwyr gwanwyn/haf wedi disgyn ac roedd y "cyfnod atal byr" ym mis Hydref newydd ddigwydd. Roedd y tywydd oer ynghyd â chyfnod clo pellach ar 20 Rhagfyr 2020 tan y Gwanwyn, wedi arwain at nifer o ganol trefi yn eithaf gwag. Felly roedd pwrpas y cynlluniau dros dro hyn i'w gweld yn llai amlwg, yn arbennig gan fod hyn wedi dod ar draul parcio ar y stryd. Roedd hyn yn sicr yn ffactor ar gyfer tynnu cynlluniau'r Rhyl a Rhuthun yn gynnar.

4.5.4 Os fydd cyllid tebyg yn dod ar gael yn y dyfodol ar fyr rybudd, argymhellir fod cyllid o'r fath yn cael ei gyfyngu i brosiectau sydd wedi'u datblygu'n ddigonol yn barod, neu i brosiectau sy'n eithaf syml mewn cwmpas, ac y gellir eu gweithredu'n eithaf hawdd.

4.5.5 Rhoddwyd cyflwyniad ar y Prosiect Teithio Llesol Covid i'r Uwch Dîm Arweiniol yn niwedd mis Hydref er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda gwasanaethau eraill.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r cynlluniau teithio llesol yn cyfrannu i'r flaenoriaeth Cysylltu Cymunedau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cafodd cyfanswm costau'r holl waith, gan gynnwys y costau staff a ysgwyddwyd, ei ddiwallu'n llawn gan y grant o £825,000.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

